

Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Elaine Edwards

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

ebost/rhif ffôn: ucac@athrawon.com

01970 639950

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 24 Ebrill 2015 i:

Cangen Polisi Ôl-16
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

ebost: Post16policybranch@cymru.GSI.Gov.UK

Cwestiwn 1 – Sut mae mynd ati i gryfhau dilyniant prentisiaethau er mwyn darparu llwybrau clir at brentisiaethau uwch?

Mae datblygiad cyrsiau galwedigaethol yn ysgolion uwchradd Cymru yn golygu bod modd defnyddio'r profiad hwn fel sylfaen ar gyfer hybu prentisiaethau. Mae dwy wedd i hyn. Yn gyntaf, mae datblygiad y BAC Cymreig yn CA4 ac yn CA5 yn golygu bod y cwricwlwm cyfan bellach yn cwmpasu cyrsiau galwedigaethol ochr yn ochr â chysiau academaidd. Yn sgil hynny, gwelir ymgais i greu cydraddoldeb rhwng y ddau fath o gwrs yn ein hysgolion. Un o gryfderau pennaf y drefn hon yw bod dilyniant clir rhwng cyrsiau galwedigaethol Lefel 3 a byd addysg uwch. Mae'r cyrsiau hyn hefyd wedi eu gweu i mewn i'r BAC Cymreig, ac mae hynny yn ddo'i hun yn ffactor bellach yn eglurder y dilyniant a welir rhwng cyrsiau galwedigaethol a chysiau gradd mewn colegau a phrifysgolion.

Mae hyn oll yn cydweddu â'r pwyslais cynyddol a roddir i bwysigrwydd graddau prifysgol fel modd o alluogi pobl ifanc i sicrhau uwch sgiliau sydd yn eu gwneud yn gymwys i gael mynediad i swyddi da. Adlewyrchiad yw hyn o'r chwyldro technolegol sydd ar waith yn yr economi, gyda'r shifft o weithgynhyrchu i wasanaethau.

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu pwysigrwydd prentisiaethau a buddsoddi mwy yn ddynt yn golygu bod yn rhaid rhoi mwy o sylw iddynt yn ein hysgolion fel llwybr gyrfa posib os yw'r strategaeth i lwyddo.

Mae pedair gwedd i hyn:

1. Pwyntiau Mynediad i Brentisiaethau

Mae angen hysbysu ysgolion o'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc, pa gyrsiau bynnag maent yn eu dilyn. Mae angen iddynt ddeall pryd mae'r pwyntiau mynediad, e.e. ar ddiwedd cyrsiau academaidd neu gyrsiau galwedigaethol yn CA5, yn dilyn cyrsiau gradd, ac ati

2. Codi proffil prentisiaethau

Mae angen rhoi ffocws cryfach i bwysigrwydd prentisiaethau yn y system addysg. Dylid gwneud hynny drwy ymgyrch lledaenu gwybodaeth:

- Ymhlith penaethiaid ac athrawon
- Ymhlith llywodraethwyr
- Ymhlith disgyblion
- Ymhlith rhieni

Dylid sicrhau bod y gwasanaeth gyrfaoedd yn llwyr gyfarwydd â'r ymgyrch hon. Dylid hefyd sicrhau bod ysgolion yn rhoi lle teilwng i'r gwasanaeth gyrfaoedd yn eu trefniadau cwricwlaidd.

3. Cynyddu'r berthynas rhwng ysgolion a byd diwydiant a busnes, lle mae hynny'n bosib ac o fudd i'r disgyblion.

Un o'r problemau amlycaf yw'r ffaith fod rhai ysgolion yn y tywyllwch ynglŷn â ffeithiau allweddol ynghylch nifer y cwmnïau busnes sydd ar gael yn eu dalgylchoedd, ac yn bwysicach na hynny, pa rai o'r cwmnïau hynny sydd yn cynnig prentisiaethau. Ceisiwyd goresgyn y broblem hon adeg sefydlu'r CCETS yn negawd cyntaf y ganrif, ond nid oedd hyn yn lwyddiant.

4. Rhoi statws uwch i brentisiaethau Lefel 3

Yn draddodiadol y duedd mewn ysgolion ymhlith disgyblion sydd yn dilyn cyrsiau galwedigaethol Lefel 2 yn CA4 yw bod y cwricwlwm galwedigaethol ôl 16 wedi ei wro i gwrdd â'u hanghenion nhw yn unig. Os yw cymwysterau Lefel 3 i ennill eu plwyf, fodd bynnag, mae angen i ddisgyblion sydd yn dilyn cysau academaidd yn unig yn CA4 gael eu darbwyllo bod cyrsiau galwedigaethol lefel 3 yn cynnig opsiynau ychwanegol iddynt.

Cwestiwn 2 – Pa fodolau cyflenwi fyddai'n cynorthwyo i ehangu prentisiaethau uwch, yn enwedig mewn galwedigaethau technegol?

Gellir datblygu cysylltiad agosach rhwng disgyblion sydd yn dilyn cyrsiau Lefel 2 yn CA4 a disgyblion sydd yn dilyn cyrsiau lefel 3 yn CA5 a bod diwydiant/byd busnes yn nalgylch yr ysgol. Byddai hyn yn golygu cyfnodau o raglenni profiad gwaith effeithiol, uchelgeisiol a gwerth chweil i sicrhau bod y bobl ifanc yn gweld gwerth yn y fath brofiad, a bod y profiad hwnnw yn elfen positif yn rhaglenni astudio'r cyrsiau Lefel 2/3 yn yr ysgol. Bydd y BAC Cymreig diwygiedig yn cynnwys cyfnodau o brofiad gwaith fel rhan annatod o'r cymhwyster; felly, byddai modd integreiddio hynny gydag agweddau ymarferol o'r cyrsiau galwedigaethol.

Cwestiwn 3 – Ai'r cynnig i ddechrau rhaglenni cwblhau prentisiaethau ar Lefel 3 yw'r ffordd orau i gyflawni'r amcanion canlynol: codi lefelau sgiliau'r gweithlu; darparu llwybrau addysg ymarferol ar wahân i brifysgol; a gwella'r budd economaidd yn sgil buddsoddi arian y llywodraeth mewn prentisiaethau?

Mae'n bwysig bod cyrsiau galwedigaethol Lefel 2 ar gael ar gyfer disgyblion ysgol CA4 ac, ar adegau, CA5, mewn ymateb i'r galw am gyrsiau galwedigaethol addas a chysiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion / myfyrwyr.

Cred UCAC mai rôl addysg hyd 16 oed yw addysgu a ni ddylai fod ysgolion yn ceisio paratoi disgyblion ar gyfer gweithle arbennig. Mae lle i gyrsiau lefel 2 ôl 16 oed i rai disgyblion yn dibynnu ar lefel eu cyrhaeddiad cynt.

Mae angen cyrsiau lefel 2 ar gyfer pobl hŷn a rhaid cofio bod derbyn hyfforddiant a gwella sgiliau yn bwysig i'r sawl sydd mewn gwaith yn barod - mae cwrs lefel 2 yn gallu arwain at gwrs lefel 3 neu uwch yn y pendraw. Mae sicrhau hyfforddiant perthnasol i oedolion sydd mewn swydd yn gallu bod yn fodd o'u galluogi hwy a'u teuluoedd i drechu tlodi yn y pendraw.

Mae yna ddadl bod angen rhoi lle cryfach i brentisiaethau lefel 3 oherwydd bod y swyddi hynny yn gofyn am sgiliau mwy penodol sydd wedi eu seilio ar uwch sgiliau cyffredinol. Mae'n rhan o'r ymgais i greu gweithlu â sgiliau uwch, er mwyn denu cyflogwyr i sefydlu busnesau yng Nghymru ac eraill i ehangu eu gweithluoedd. Mae'n bwysig i ni allu dangos bod gennym weithlu addas, ond mae'n bwysig, hefyd, sicrhau bod cyflogwyr yn darparu hyfforddiant addas ar gyfer yr holl weithwyr ac yn caniatáu cyfleodd pwysig iddynt ddatblygu eu sgiliau.

Cwestiwn 4 – Sut byddai modd cyflenwi darpariaeth Lefel 2 y tu allan i'r model prentisiaethau?

Byddai modd gwneud hyn yn rhannol drwy gyfrwng cyrsiau galwedigaethol yn CA5. Gyda thoriadau i gyllid addysg oedolion i oedolion sydd mewn swydd bydd hi'n anoddach i oedolion gael mynediad i hyfforddiant pellach tu allan i'w swydd. Mae'n bwysig iawn bod cyflogwyr yn cynnig y gefnogaeth yma i'r gweithlu yn ogystal â chynnig prentisiaethau lefel 3.

Cwestiwn 5 – I helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch chi ragweld unrhyw effaith benodol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig (yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallai'r cynigion hyn effeithio arny'n nhw'n benodol?

Mae'n bwysig sicrhau mynediad at hyfforddiant addas i bob aelod o'r gweithlu ac i bobl sydd yn dymuno ymuno â weithlu. Mae yna berygl o symud i brentisiaethau lefel 3:

- o amddifadu cyfleoedd ar gyfer rhai ag anableddau dysgu
- o effeithio cyfleoedd i'r sawl sydd wedi dychwelyd i weithio yn dilyn dechrau teulu ac anfanteisio mamau neu partneriaid sydd wedi bod adref yn magu plant ac yn dymuno canolbwyntio o hyn ymlaen ar wella eu sgiliau yn y gwaith

Mae angen sicrhau, hefyd, bod cyfleoedd addas ar gael i'r sawl sydd yn dymuno cyflawni prentisiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n gan y sawl sydd ag anabledd neu gyflyrau iechyd hir dymor heriau ychwanegol i ffeindio gwaith / cael eu derbyn ar brentisiaeth; mae angen rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda chyflogwyr am y Cynllun Mynediad at Waith a sicrhau bod cyflogwyr yn rhoi cyfle teg i bawb.

Mae'n bosib bydd angen anogaeth / cefnogaeth / gwybodaeth pellach ar rai cyflogwyr i sicrhau bod hyn oll yn digwydd.

Cwestiwn 6 – Beth fyddai effaith cyfyngu lleoedd ar brentisiaethau wedi'u cyllido gan y llywodraeth i weithwyr mewn rolau swydd newydd?

Gallai hyn gael effaith ar y math o gyrsiau galwedigaethol a gynigir yn CA4 ac yn CA5. Er mwyn osgoi hynny, byddai angen sicrhau llif cyson o wybodaeth i'r ysgolion, a hynny mewn da bryd, fel bod penaethiaid yn medru cynllunio yn effeithiol ar gyfer hynny.

Gallai olygu bod gweithwyr sydd mewn swydd yn cael llai o gyfleodd am hyfforddiant a datblygiad mewn swydd; gallai hyn greu anawsterau i bobl drechu tlodi wrth gyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Cwestiwn 7 – Beth fyddai'r effaith ar gyflogwyr a phrentisiaid pe bai arlwy'r rhaglen prentisiaethau yn cael ei symud at brentisiaethau penodol i alwedigaethau?

Mae prentisiaethau sydd yn cynnig cymhwyster am faes mwy eang a llai penodol i alwedigaethau yn gallu bod o fudd i'r bobl hynny sydd yn dymuno gwella'u sgiliau ond ddim yn dymuno (neb heb gael lle) i astudio mewn prifysgol.

Mae natur galwedigaethol cwrs o'r fath yn bwysig i'r sawl sydd yn dilyn y cwrs ac yn gallu bod o fudd mawr ar gyfer llwyddo i gael swydd, e.e. ym maes gwasanaethau cyhoeddus, twristiaeth a chroeso, gofal.

Mae'n gwbl briodol bod prentisiaethau ar gael mewn meysydd penodol sydd yn galw am ddatblygu sgiliau a gwybodaeth technegol er mwyn bod yn gymwys i ymarfer, e.e. ym maes adeiladwaith. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at feysydd eraill fel rhai sydd wedi arwain at gollu'r ffocws galwedigaethol sydd yn gallu "*glastwreiddio gwerth prentisiaeth oherwydd na all warantu y bydd yr holl brentisiaid sy'n cwblhau eu rhaglen yn gallu ymgymryd â rolau swyddi penodol o fewn maes galwedigaethol generig.*" Mae'r ddogfen yn cyfeirio at feysydd megis gweinyddu busnes, gwasanaethau cwsmeriaid ac arwain tîm.

Onid yw'r meysydd hyn - ac eraill - hefyd o bwys i ni er mwyn sicrhau llwyddiant economaidd? Mae angen sicrhau bod cymwysterau ar gael yn y meysydd hyn bydd yn caniatáu i bobl ddod yn weithwyr â sgiliau lefel uwch.

Cwestiwn 8 – Pa broblemau ydych chi wedi'u hwynebu mewn perthynas â chyflenwi cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru pan fydd gan brentisiaid gymwysterau ar lefelau cyffelyb neu uwch mewn pynciau tebyg yn barod?

Mae'n ddiflas i bobl sydd â sgiliau hanfodol o safon uchel i orfod profi'r sgiliau hyn dro ar ôl tro. Mae hefyd yn cymryd amser byddai modd defnyddio at bwrpasau eraill.

Mae angen i Sgiliau Hanfodol Cymru fod yn gwbl gydnaws a'r strategaeth Llythrennedd a Rhifedd. Felly, fe ddylai'r meini prawf cyrhaeddiad a nodir yng nghymwyseddau Sgiliau Hanfodol gyfateb yn union i'r safonau hynny. Rydym ar drothwy datblygiad pellach pan fydd cyrsiau TGAU Saesneg, Cymraeg a Mathemateg

yn newid ym Medi 2015, a phan fydd y sgiliau sydd ynghlwm wrth y BAC Cymreig hefyd yn unol â'r safonau disgwylidig.

Efallai pan fydd y TGAU newydd wedi'u sefydlu bydd cymhwyster A*-C TGAU a chymhwyster y BAC yn cael eu derbyn fel cymwysterau cyffelyb?

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n meddwl y dylid derbyn cymwysterau dirprwyol ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn y fframweithiau prentisiaeth?

Byddai'n gwneud synnwyr ac er lles y prentisiaid a'r cyflogwyr.

Cwestiwn 10 – Pa gymwysterau ydych chi'n meddwl y byddai'n rhesymol i'w derbyn fel rhai dirprwyol ar gyfer cymwysterau penodol Sgiliau Hanfodol Cymru?

Pan fydd y TGAU newydd wedi'u sefydlu bydd cymhwyster A*-C TGAU a chymhwyster y BAC yn cael eu derbyn fel cymwysterau cyffelyb?

Cwestiwn 11 – Sut gall Llywodraeth Cymru annog cynnydd yn y galw am ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg?

- Sicrhau gwell cydberthynas rhwng yr ysgolion a'r economi leol fel bod ysgolion yn medru blaengynllunio cyrsiau galwedigaethol ar gyfer yr economi leol
- Sicrhau bod cyrsiau galwedigaethol newydd sydd ar gael yn cael eu darparu yn y Gymraeg ar yr un pryd
- Sicrhau bod deunyddiau cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer pob cwrs galwedigaethol Lefel 2 a 3
- Sicrhau bod nifer digonol o arholwyr cyfrwng Cymraeg ar gael
- Sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu ar draws ysgolion
- Sicrhau manteision cynnig cyrsiau cyfrwng Cymraeg drwy gyplysu'r cyrsiau lefel 2 a 3 gyda'r cyrsiau sydd â gweddau galwedigaethol ynddynt yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- mae angen hybu a marchnata ac annog cyflogwyr i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg
- marchnata prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a manteision cwblhau'r prentisiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg - manteision ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol
- darparu cefnogaeth i gyflogwyr wella'i darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Cwestiwn 12 – Beth sydd angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried o ran cysondeb a chludadwyedd prentisiaethau rhwng systemau Cymru a Lloegr?

Mae angen sicrhau fod IVETs a CVETs yn cael eu derbyn drwy bob rhan o Wledydd Prydain

Mae'n bwysig bod y sgiliau'n drosglwyddadwy a bod y safonau'n addas at eu pwrpas.

Cwestiwn 13 – Oes unrhyw agweddau ar system ddiwygiedig Lloegr a fyddai'n gwella'r system prentisiaethau yng Nghymru?

Cwestiwn 14 – Pa fudd fyddai'n deillio o sefydlu paneli cyflogwyr i ymgymryd â rôl cynghori ar gynllunio ac ar gynnwys prentisiaethau a llywio'r galw'n flynyddol ar lefel sector?

Gallai hyn fod yn fanteisiol i gynllunio prentisiaethau ar y cyd ond mae'n bwysig hefyd ystyried barn addysgwyr a rôl ysgolion a cholegau mewn darparu cyrsiau galwedigaethol i ddisgyblion / myfyrwyr 14-19 oed. Gallai sefydlu paneli o'r fath ddysgu llawer oddi wrth fethiant y CCETs gynt.

Dim ond wrth gyd-drafod mae modd sicrhau dilyniant addas ac mae'n bwysig bod cyflogwyr yn deall mai nid paratoi disgyblion ar gyfer gweithle arbennig yw rôl ysgol. Serch hynny, mae gan ysgolion heddiw brofiad a llais pwysig wrth drafod datblygiadau cyrsiau galwedigaethol, sydd mewn sawl achos yn sail ar gyfer dewis person ifanc o lwybr prentisiaeth yn y dyfodol.

Cwestiwn 15 – Sut gallai Cymwysterau Cymru gynorthwyo nod Llywodraeth Cymru i fod yn fwy ymatebol i anghenion y cyflogwyr a sicrhau bod cynnwys y prentisiaethau'n berthnasol i'r farchnad lafur i raddau helaeth?

Mae angen i Gymwysterau Cymru sicrhau bod ganddo'r arbenigedd priodol i sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol newydd yn:

- Glir
- Cadarn
- Rhan annatod o gymwysterau cyffredinol Cymru yn CA4 ac yn CA5
- Ddilys o ran hygredd cymwysterau cyffredinol ar lefel 2 a 3, a bod y cymwysterau galwedigaethol mwy penodol yr un mor ddilys
- Sicrhau dilysrwydd o ran hygredd IVETs a CVETS

Dylai Cymwysterau Cymru hefyd wneud pob ymgais posibl i hysbysu cyflogwyr o'r newidiadau sydd ar droed i gymwysterau eraill.

Mae rôl bwysig gan Cymwysterau Cymru i ddiogelu'r dysgwr o ran sicrhau safonau addas a gwerth am arian, yn ogystal a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 16 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: